OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 566

# Rheoliadau Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cywiro, Tir Comin Heb ei Gofrestru neu Dir Comin a Gam-gofrestrwyd) (Cymru) 2017

## RHAN 1

### Rhagarweiniol

**Penodi personau i gyflawni swyddogaethau awdurdod cofrestru**

**4.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru benodi—

(a) personau ("person penodedig") i fod yn gymwys i weinyddu ceisiadau a wneir i awdurdod cofrestru, neu gynigion a wneir gan awdurdod o'r fath, sy'n cael eu cyfeirio gan yr awdurdod cofrestru at berson penodedig yn unol â'r Rheoliadau hyn; a

(b) unrhyw berson sy'n cael ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen fel arall yn un o arolygwyr y person penodedig, neu a gyflogir fel staff iddo, i fod yn gymwys i—

(i) dyfarnu cais neu gynnig y mae awdurdod cofrestru wedi ei gyfeirio at y person penodedig yn unol â'r Rheoliadau hyn; a

(ii) cymryd unrhyw gamau angenrheidiol at y diben hwnnw neu sy'n gysylltiedig â'r diben hwnnw (er enghraifft, cynnal ymchwiliad cyhoeddus, gwrandawiad neu ymweliad safle).

(2) Rhaid i benodiad o dan baragraff (1) fod yn ysgrifenedig.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, ar unrhyw adeg, drwy roi hysbysiad yn ysgrifenedig i berson penodedig—

(a) dirymu'r penodiad yn gyffredinol;

(b) dirymu'r penodiad i'r graddau y mae'n ymwneud â chais neu gynnig penodol nad yw wedi ei ddyfarnu gan y person penodedig cyn yr adeg honno; neu

(c) dirymu awdurdod y person penodedig i ymarfer swyddogaeth benodol mewn perthynas â chais neu gynnig.

(4) Ni fydd hysbysiad o dan baragraff (3) yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir gan y person penodedig cyn i'r hysbysiad gael ei roi.